# Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion

**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion**

**Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**
**Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig**

**Parthed: Oedolyn V – Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 02/2022**

## Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma:*

- *Y cyd-destun cyfreithiol yn y canllawiau sy'n berthnasol i'r adolygiad yma*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a gafodd ei adolygu a pham*
- *Llinell amser sy'n crynhoi'r digwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu mewn atodiad*

Cafodd Adolygiad Estynedig ei gomisiynu gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd/BDCTM) ar 6 Rhagfyr 2022 yn dilyn argymhelliad gan y Grŵp Cydadolygu, yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaeth. Caiff y meini prawf ar gyfer cynnal yr adolygiad yma eu bodloni o dan:
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Rhaid i'r Bwrdd gynnal adolygiad ymarfer oedolion estynedig mewn achos lle mae oedolyn sy'n wynebu risg, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn destun penderfyniad gan yr Awdurdod Lleol i gymryd camau i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn dilyn ymholiad gan Awdurdod Lleol, ac sydd:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

Derbyniwyd Oedolyn V i'r ysbyty ym mis Gorffennaf 2020 o'i chyfeiriad cartref. Roedd hi mewn cyflwr corfforol gwael, gan nodi ei bod yn profi poen yn ei hysgwydd, ei bod hi'n sylweddol o dan ei phwysau, credir nad oedd hi’n bwyta nac yn yfed digon, roedd gyda hi gleisiau ar gefn y ddwy glun, a'r hyn a oedd yn ymddangos yn niwed pwysedd. Roedd hi hefyd wedi methu cymryd ei meddyginiaeth yn ddiweddar. Tra’r oedd yn yr ysbyty,


canfuwyd bod gyda hi ddiffyg maeth sylweddol, doedd hi ddim yn dymuno bwyta nac yfed a gwrthododd gael tiwb trwyn i'r stumog i roi maeth wedi'i osod. Roedd hi'n effro i'r ffaith y gallai ei chyflwr waethygu heb gymeriant maeth digonol, ond fel oedolyn â galluedd, roedd modd iddi wneud penderfyniadau am ei gofal meddygol.

Yn yr ychydig ddyddiau cyn cael ei derbyn i'r ysbyty, codwyd pryderon gan ei darparwr gofal cartref ar ôl i Oedolyn V ddatgelu i weithwyr gofal fod Oedolyn A a'i bartner (perthynas teuluol), a oedd wedi bod yn aros yng nghartref Oedolyn V yn ddiweddar, wedi ymosod yn gorfforol arni hi. Dechreuodd yr Awdurdod Lleol ymholiadau a chychwynnwyd ymchwiliad troseddol gan yr Heddlu. Cymerodd yr Awdurdod Lleol gamau gweithredu i ddiogelu Oedolyn V, gan gynnwys diogelu eiddo a rhoi trefniadau gofal seibiant ar waith.

Yn anffodus, bu farw Oedolyn V yn 87 oed 7 diwrnod ar ôl iddi gael ei derbyn i'r ysbyty. Nodwyd mai niwmonia ac eiddilwch, clefyd y galon a diabetes oedd achos y farwolaeth.

Yr amserlen ar gyfer yr adolygiad oedd mis Awst 2019 i fis Gorffennaf 2020. Ni nodwyd unrhyw amgylchiadau a oedd yn cyfiawnhau ymestyn y cyfnod adolygu, cynhwysir digwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r amserlen gan eu bod nhw'n darparu gwybodaeth gyd-destunol berthnasol.

**Genogram Oedolyn V**




**Gwybodaeth gefndirol a chyd-destun**

Roedd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion yr Awdurdod Lleol yn ymwneud ag Oedolyn V o 2006, a hynny ar ôl iddi gael y ddamwain serebo-fasgwlaidd cyntaf (strôc), ac yna cafodd hi'r ail yn 2009, gan ei gadael hi ag anableddau sylweddol. Roedd hi wedi byw ar ei phen ei hun ers i'w gŵr farw. Yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, roedd modd iddi ddychwelyd adref ar y ddau achlysur gyda phecyn gofal a chymorth ychwanegol gan aelodau o'r teulu (brodyr a chwiorydd). Yn ogystal â rheoli'r pecyn gofal, cefnogodd gweithwyr cymdeithasol Oedolyn V i gynnal ei hannibyniaeth, gan ei chysylltu â grwpiau

cymdeithasol a chynorthwyo gyda materion ymarferol megis cael mynediad at fudd-daliadau.

Ym mis Mehefin 2009, ar ôl profi rhai problemau gyda'r pecyn gofal a drefnwyd gan yr Awdurdod Lleol, penderfynodd Oedolyn V wneud ei threfniadau ei hun a chyflogodd wasanaeth preifat. Daeth ei hymwneud hi â'r Awdurdod Lleol i ben ar y pwynt yma. Rhwng 2015 a 2019, roedd yr Awdurdod Lleol yn ymgysylltu ag Oedolyn V, gan geisio sefydlu cyfleoedd yn ystod oriau dydd a phecyn gofal cartref atodol. Cafodd y rhain naill ai eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl ar gais Oedolyn V a chafodd yr achos ei gau yn gynnar yn 2009.

Ym mis Awst 2019, cyfeiriodd perthynas Oedolyn V at Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol gan ei fod yn poeni nad oedd Oedolyn V yn llwyddo i ofalu am ei hun gartref. Dyrannwyd ei hachos yn briodol, cwblhawyd asesiad gofal a chymorth, a'r canlyniad oedd y byddai Oedolyn V i dderbyn cymorth yn y cartref. Yn ddiweddarach y mis hwnnw, cwympodd Oedolyn V gartref, ymatebodd y gwasanaethau brys a chafodd ei derbyn i'r ysbyty. Derbyniodd hi ystod o asesiadau therapi ac asesiad gwaith cymdeithasol pellach yno. Tra’r oedd yn yr ysbyty, llofnododd Oedolyn V atwrneiaeth arhosol a gychwynnwyd gan Oedolyn B, gan eu rhestru nhw fel atwrnai. Cafodd adroddiad diogelu ei wneud gan fod pryderon y gallai hyn fod wedi'i wneud dan orfodaeth.

Effeithiodd y cwymp ar hyder Oedolyn V. Ar ôl mynegi pryderon am ddychwelyd adref, nodwyd lleoliad preswyl a symudodd i gartref gofal yn ardal ei chartref. Er bod Oedolyn V wedi cytuno i leoliad gofal preswyl, roedd hi bellach yn dymuno dychwelyd adref. Roedd teulu Oedolyn B o blaid iddi aros yn y cartref gofal, gan arwain at densiynau yn eu perthynas.

Yn fuan ar ôl symud i'r cartref gofal, cysylltodd Oedolyn A ag Oedolyn V. Credir bod Oedolyn A ac Oedolyn V wedi ymddieithrio. Roedd hyn yn destun dadl gan Oedolyn V, a ddywedodd eu bod nhw wedi cadw mewn cysylltiad yn gyfrinachol. Dangosodd Oedolyn A ei hwyneb a dywedodd ei bod hi am fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am ofal Oedolyn V. Cefnogodd Oedolyn A ddymuniad Oedolyn V i ddychwelyd adref. Mynegwyd pryderon gan weithwyr proffesiynol ynghylch addasrwydd dychwelyd adref, gan fod Oedolyn V mewn iechyd gwael. Roedd ei holl anghenion yn cael eu diwallu gan staff gofal ar hyn o bryd ac nid oedd gan ei chartref yr offer addas. Cwblhawyd asesiad galluedd meddyliol a barnwyd bod gyda hi alluedd i wneud penderfyniadau am ei gofal. Roedd Oedolyn A yn ymweld â'r cartref gofal yn aml ac roedd hi'n gwneud ei hun yn rhan o bob agwedd ar ofal Oedolyn V, mewn cyd-destun gofal iechyd ehangach a materion ariannol. Roedd Oedolyn A yn awyddus iawn i Oedolyn V ddychwelyd adref, lle byddai hi'n darparu gofal ar ei chyfer. Mynegwyd pryderon gan sawl asiantaeth ynghylch ymddygiad Oedolyn A a'r dylanwad posibl yr oedd yn ei gael ar benderfyniadau Oedolyn V.

Dywedodd Oedolyn V ei bod yn dymuno dychwelyd adref, a chadarnhaodd eiriolaeth broffesiynol ac asesiadau galluedd pellach fod gyda hi'r galluedd i wneud y penderfyniad yma. Roedd cynllunio ar gyfer dychwelyd adref yn broses gyflym ar ôl i'r cartref gofal roi rhybudd iddi hi. Dychwelodd Oedolyn V adref gyda phecyn gofal a chymhorthion byw dyddiol ar waith. Arhosodd Oedolyn A gyda hi.

Y mis canlynol, cyrhaeddodd COVID-19 y DU. Hyd yn oed gyda chyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru ar waith, parhaodd asiantaethau i fod yn rhan o bethau a pharhaodd y

pecyn gofal i gael ei ddarparu. Cafwyd ymateb da gan asiantaethau pan nodwyd pryderon am ymddygiad Oedolion A tuag at weithwyr proffesiynol, aelodau eraill o'r teulu a phan ddaeth risgiau diogelu i Oedolyn V yn hysbys. Arweiniodd hyn ar ymchwiliad troseddol gan yr Heddlu a chafodd camau gweithredu eu rhoi ar waith i amddiffyn Oedolyn V.

**Ymgysylltu â'r teulu –** Er mwyn diogelu aelodau'r teulu, mae'r adroddiad yma wedi'i lunio'n ddienw.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r broses adolygu, roedd gwybodaeth am aelodau'r teulu yn gyfyngedig. Yn dilyn cyswllt a dderbyniwyd gan aelod arall o'r teulu, (nid Oedolyn A neu B) roedd modd i'r adolygwyr lunio genogram teulu manwl. Nid oedd rhai aelodau o'r teulu yn hysbys i asiantaethau yn ystod eu cysylltiad ag Oedolyn V.

Mae'r adolygwyr wedi siarad â thri aelod o'r teulu.

Rhannodd Oedolyn E nad oedd wedi cael cyswllt nac wedi gweld Oedolyn V ers 2011. Roedd anghytundebau rhwng Oedolyn B ac Oedolyn C wedi gwaethygu yn dilyn marwolaeth aelod o'r teulu, gan arwain at gyhuddiadau o fygythiadau ac aflonyddu rhwng aelodau o'r teulu a oedd yn ymwneud â'r heddlu.

Rhannodd Oedolyn E fanylion nifer o ddigwyddiadau rhwng aelodau estynedig o'r teulu a oedd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd, gan ddangos perthynas doredig ac anghyson gyda'r rhan fwyaf o aelodau'r teulu.

Rhannodd Oedolyn E fod gyda nhw nifer o bryderon ynghylch gofal Oedolyn V a chysylltodd â'r heddlu a'r crwner am wybodaeth am eu hymchwiliadau a mynegi eu bod yn anhapus â'r canlyniadau. Roedden nhw'n teimlo nad oedden nhw'n adlewyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau.

Roedd Oedolion B a C wedi darparu cymorth i Oedolyn V ers sawl blwyddyn. Roedd Oedolyn C yn bendant o'r farn ei fod 'yn anghywir gadael iddi hi (Oedolyn V) fynd adref o'r cartref gofal' a bod Oedolyn A wedi torri Oedolyn V i ffwrdd 'oddi wrth y teulu'. Credai'r teulu fod gyda hi gymhellion dros wneud hynny, a'u bod wedi rhannu eu pryderon gyda gweithwyr proffesiynol ar y pryd.

Dywedodd Oedolyn A wrth un o'r adolygwyr eu bod nhw'n ystyried eu hunain fel yr unig berson a oedd yn eiriol ar ran Oedolyn V a'u bod nhw'n 'ceisio gwneud yn siŵr bod ei llais yn cael ei glywed'. Dywedodd Oedolyn A fod Oedolyn V wedi'i 'rhoi mewn cartref gofal yn groes i'w hewyllys'. Nid oedd gyda nhw lawer o bethau cadarnhaol i'w ddweud am unrhyw weithwyr proffesiynol/asiantaethau dan sylw ac roedden nhw wedi cyflwyno nifer o gwynion.

## Dysgu mewn perthynas ag ymarfer a dysgu sefydliadol

*Nodwch bob pwynt dysgu sy'n codi yn yr achos yma (gan amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol*

(Gall amgylchiadau perthnasol sy'n cefnogi pob pwynt dysgu gael eu llywio gan yr hyn a ddysgwyd o gysylltiad y teulu â gwasanaethau gwahanol, safbwynt ymarferwyr a'u hasesiadau a'r camau a gymerwyd, safbwyntiau aelodau'r teulu, tystiolaeth am arfer a'i effaith, ffactorau cyd-destunol a heriau)

- **Deall yr oedolyn yng nghyd-destun ei deulu.**

Nid oedd gan weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud ag Oedolyn V ddarlun llawn o'r cyd-destun teuluol, er bod ymwybyddiaeth o rai perthnasoedd teuluol a'u dynameg, nid oedd gwybodaeth draws-asiantaethol am aelodaeth lawn y teulu na pha aelodau o'r teulu yr ystyriwyd eu bod nhw'n berthynas deuluol agos a chefnogol.

Ar ddechrau'r adolygiad, ni allai unrhyw asiantaeth sy'n ymwneud â'r teulu ddarparu genogram teulu llawn a chywir i'r adolygwyr.

Yn ystod y broses adolygu, derbyniwyd gwybodaeth a ddatgelodd fod Oedolyn V yn aelod o deulu estynedig aml-genhedlaeth sylweddol, gan gynnwys mab ac wyrion. Gyda chyfanswm o 23 o aelodau teulu estynedig o gymharu â'r genogram a oedd yn cynnwys 8 aelod o'r teulu estynedig a rennir gan asiantaethau. O'r 23 aelod newydd o'r teulu a nodwyd, roedd 8 bellach wedi marw.

Yn anffodus, cadarnhawyd hefyd fod plentyn Oedolyn V wedi marw tra'r oedd yn y carchar yn 2016 ac nid oedd gan Oedolyn V fawr o gysylltiad â'i 2 ŵyr/wyres yn y blynyddoedd wedi hynny.

Roedd rhai aelodau agos o'r teulu nad oedd yn ymddangos fel pe baen nhw'n ymddangos yng nghofnodion yr asiantaeth. Mae arwyddion eu bod wedi bod yn arwyddocaol ym mywyd Oedolyn V ar un adeg ac, os oedd yn hysbys, gallen nhw fod wedi ychwanegu cyd-destun i asesiadau asiantaeth. Pe bai gwaith pellach wedi'i wneud ar y genogram ar yr adeg yr oedd asiantaethau'n gweithio gyda hi, efallai y byddai cyfleoedd eraill wedi bod i gefnogi Oedolyn V a'i hailgysylltu ag aelodau eraill o'r teulu estynedig.

- **Pwysigrwydd Eiriolaeth Annibynnol Broffesiynol i unigolion sydd ag anawsterau cyfathrebu i'w cefnogi i fynegi eu barn.**

Mae eiriolaeth annibynnol yn bwysig er mwyn clywed llais yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth, gan eu cefnogi i sicrhau bod eu barn yn cael ei glywed a'i ystyried yn llawn ac i wneud dewisiadau gwybodus. Roedd gan Oedolyn V, oherwydd effeithiau damweiniau serebro-fasgwlaidd (strôc), anawsterau wrth gyfathrebu ar lafar.

Wrth wirio dymuniadau Oedolyn V o ran lle roedd hi'n dymuno byw, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn cydnabod bod Oedolyn V yn agored i ddylanwad ac nad oedd gyda hi unrhyw berthynas oedolyn priodol ar gael. O ganlyniad, gwnaeth y gweithiwr cymdeithasol atgyfeiriad ar gyfer eiriolaeth annibynnol. Fe wnaeth yr asiantaeth eiriolaeth gadw mewn cysylltiad ag Oedolyn V yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Roedd gan Oedolyn V berthynas broffesiynol dda gyda'r eiriolwr, ac i'r eiriolwr y datgelodd y cam-drin gan Oedolyn A.

Nid yw'n hysbys a ystyriodd asiantaethau atgyfeiriad ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth ar adeg llunio'r atwrneiaeth arhosol. Gan fod y teulu wedi paratoi atwrneiaeth arhosol ymlaen llaw heb ganiatâd, mae'n debygol o fod wedi effeithio ar y berthynas a oedd gyda hi â'r aelodau yma o'r teulu, gan adael absenoldeb perthnasau i eirioli ar ei rhan ar y mater yma. Byddai Oedolyn V wedi bod â hawl i eiriolwr fel y nodir yn Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- **Galluedd meddyliol, rheolaeth orfodol a diogelu. Lle mae pryderon diogelu, gallai gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau olygu bod angen rheoli risg, monitro neu wneud newidiadau parhaus i gynlluniau gofal a chymorth.**

Er bod pob gweithiwr proffesiynol yn effro i ddatgeliadau a wnaed gan Oedolyn V, roedd yn hysbys ei bod hi'n 'newid ei meddwl yn aml' gyda honiadau a wnaed yn erbyn aelodau o'r teulu ddim yn cael eu cadarnhau gan Oedolyn V.

Gydag amheuaeth o gam-drin ac ymddygiad corfforol a rheolaethol yn nodwedd ym mherthynas Oedolyn V ag aelodau o'r teulu, heb unrhyw ddatgeliad cadarn na thystiolaeth glir, rhoddwyd asiantaethau mewn sefyllfa anodd o ran ymyrraeth gyfreithiol. Fe wnaeth y gweithiwr cymdeithasol adnabod dangosyddion cam-drin domestig ac roedd yn bwriadu cyflwyno atgyfeiriad ar gyfer Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC). Ar ôl ymgynghori â charfan diogelu'r Awdurdod Lleol, ni wnaethon nhw symud ymlaen â'r atgyfeiriad, gan gredu nad oedd digon o dystiolaeth a fyddai'n dosbarthu Oedolyn V fel unigolyn risg uchel.

Parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio gydag Oedolyn V ac nid oedd y penderfyniad yma'n effeithio ar y ddarpariaeth gofal a chymorth.

Er bod sail cyfathrebu da rhwng asiantaethau, byddai galw cyfarfod strategaeth ddiogelu yn gynharach yn yr achos yma wedi rhoi cyfle i asiantaethau rannu pryderon ar y cyd ac ystyried pa gamau y gallai fod angen eu cymryd i amddiffyn Oedolyn V. Gan fod adroddiadau'n cronni bod asiantaethau'n methu â chael mynediad i gartref Oedolyn V neu siarad â hi heb fod Oedolyn A yn bresennol, gallai hyn fod wedi ysgogi trafodaeth ynghylch a fyddai'n briodol gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, a fyddai

wedi rhoi awdurdod i swyddog dynodedig siarad yn breifat ag oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.

- **Prosesau Cynhadledd Amlasiantaethol ar gyfer Asesu Perygl (MARAC)**

Mae'n bwysig archwilio gallu'r unigolyn i wneud dyfarniadau am y dirywiad mewn cymorth iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cyd-destun galluedd meddyliol unigolyn.

Pan fydd honiad o gam-drin yn cael ei dynnu’n ôl gan oedolyn hŷn sydd â galluedd, dylai gweithwyr proffesiynol fod yn effro i unrhyw risgiau o ddylanwadu ar wneud penderfyniadau oherwydd presenoldeb ymddygiad gorfodol a rheoli a chymryd camau priodol i liniaru risg.

Gall pobl hŷn fod yn ynysig, â phroblemau iechyd sy’n ei gwneud hi’n anodd iddyn nhw gael cymorth, a bod mewn sefyllfa i dderbyn gofal gan y sawl sy'n cyflawni'r drosedd.

Mae rhestr wirio asesiad risg MARAC yn darparu strwythur ar gyfer barn neu risg ac nid yw'n asesiad risg diffiniol. Ni all adlewyrchu pob agwedd ar sefyllfa unigolyn.

Mewn adolygiad o dystiolaeth a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, canfuwyd mewn 20% o achosion bod gwaith asesu risg gyda phobl hŷn wedi arwain at sgôr is na’r disgwyl.

Lle nad oes 'tystiolaeth bendant' neu fod honiad yn cael ei dynnu'n ôl, dylai ymarferydd wneud atgyfeiriad MARAC o hyd os yw yn ei farn broffesiynol yn ystyried bod unigolyn yn wynebu risg uchel. Mae gan wasanaethau cam-drin domestig lleol/ymgynghorwyr trais yn y cartref annibynnol wybodaeth a sgiliau arbenigol ac mae modd iddyn nhw roi cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol ar nodi risgiau. Mae ymateb arfer gorau ar gyfer person hŷn yn debygol o adlewyrchu dull integredig sy’n cyfuno arbenigedd diogelu oedolion a cham-drin domestig ac asiantaethau partner.

- **Rhannu gwybodaeth a systemau cofnodi electronig**

Yn yr achlysur dysgu, rhoddodd ymarferwyr enghreifftiau o gyfathrebu da a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu uniongyrchol rhwng gweithwyr proffesiynol. Cafodd bylchau eu hamlygu o ran systemau cofnodi electronig o fewn ac ar draws asiantaethau. Roedd cyflwr iechyd cymhleth Oedolyn V yn golygu ei bod yn derbyn gofal iechyd gan nifer o wahanol adrannau ysbyty a gwasanaeth Meddyg Teulu lleol. O fewn rhanbarth y Bwrdd Iechyd ar y pryd roedd 20 o systemau cofnodion electronig gwahanol ar waith. Nid yw cofnodion pob Adran yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y claf a fyddai mor fanwl â chofnodion ysbytai eraill. Un enghraifft a roddwyd yn yr achlysur dysgu oedd bod yr wybodaeth a dderbyniwyd gan un adran yn ymwneud â'r angen iechyd a gyflwynwyd yn unig. Roedd cynrychiolwyr o'r farn y byddai cael gwybodaeth gefndir o fudd i'r claf a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

- **Diogelu a Atwrneiaeth arhosol**

Mae’r rhan fwyaf o asiantaethau wedi cyfeirio at newidiadau mewn atwrneiaeth arhosol yn ogystal â sôn am aelodau o’r teulu sydd ag atwrneiaeth arhosol wrth ddogfennu penderfyniadau ar ddarpariaethau iechyd a gofal. Serch hynny, nid yw’n glir pam y gweithredwyd atwrneiaeth arhosol, gan y barnwyd bod gan Oedolyn V alluedd. Fyddai atwrneiaeth arhosol ddim wedi bod yn berthnasol o dan yr amgylchiadau yma gan mai dim ond pan nad yw’r oedolyn yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun y mae modd defnyddio atwrneiaeth arhosol ar gyfer iechyd a lles (e.e. diffyg gallu).

Wrth ymgysylltu ag asiantaethau, cyfeiriodd aelodau amrywiol o'r teulu at y ffaith bod atwrneiaeth arhosol ar waith a'u bod yn gweithredu er lles yr unigolyn. Er bod y gweithiwr cymdeithasol wedi gwneud ymholiadau gyda Swyddfa'r Gwarcheidwaid Cyhoeddus, mae'n ymddangos bod asiantaethau eraill wedi derbyn hyn heb ofyn am unrhyw gadarnhad ffurfiol.

O ganlyniad i newidiadau a wnaed yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19, cynhaliwyd apwyntiadau iechyd gydag asesiadau'n cael eu cwblhau dros y ffôn gydag Oedolyn A, heb unrhyw dystiolaeth o hyn yn cael ei gymeradwyo gan Oedolyn V. Ni chafodd gwybodaeth yn ymwneud â diogelu, anghenion cyfathrebu ac asesu galluedd y claf eu rhannu, a doedden nhw ddim ar gael, i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

- **Ewyllysiau a chynrychiolaeth gyfreithiol**

Yn ystod yr wythnosau cyn marwolaeth Oedolyn V, ymwelodd cyfreithiwr newydd ag Oedolyn V yn ei chartref a chafodd ewyllys newydd ei hysgrifennu. Er ei bod yn amlwg bod y cyfreithiwr wedi dilyn y broses gywir yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, ni fyddai cyfreithwyr fel arfer yn effro i unrhyw bryderon diogelu parhaus ar gyfer eu cleientiaid a bydden nhw ond yn dilyn gweithdrefnau pe bydden nhw'n teimlo bod eu dyletswydd cyfrinachedd yn cael ei gorbwyso yn erbyn y ddyletswydd gofal i amddiffyn y cleient er eu lles gorau. Ni wnaed unrhyw adroddiadau o'r fath gan y cyfreithiwr yn dilyn cyswllt ag Oedolyn V gan nad oedd gyda nhw unrhyw bryderon ar adeg y cyfarfod.

**Ymarfer Effeithiol**

- Fe wnaeth gweithwyr proffesiynol barchu dewis Oedolyn V i fyw gartref, aseswyd ei hanghenion yn ddealladwy, a threfnwyd pecynnau gofal.
- Cafodd asesiadau galluedd meddyliol eu cynnal yn rheolaidd, a chafodd pob cam ymarferol eu cymryd i alluogi Oedolyn V i gyfleu ei dymuniadau a gwneud dewisiadau gwybodus am ei gofal a chymorth.
- Soniodd staff asiantaeth gofal cartref am bryderon pan oedden nhw'n teimlo bod presenoldeb Oedolyn A yn cael effaith andwyol ar eu gallu i ddarparu gofal diogel cyson i Oedolyn V.
- Pan wnaeth Oedolyn V ddatgeliad a phan godwyd pryderon diogelu, cafodd adroddiad oedolyn mewn perygl ei gyflwyno'n brydlon i'r Awdurdod Lleol. Gweithiodd asiantaethau'n gyda'i gilydd i sicrhau bod Oedolyn V yn cael ei diogelu a

bod ei hanghenion gofal a chymorth yn parhau i gael eu diwallu wrth ystyried ei dymuniadau a'i theimladau. Cychwynnodd yr Heddlu ymchwiliad troseddol. Cymerodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gamau priodol i amddiffyn eiddo Oedolyn V.

- Cymerodd yr Heddlu gamau gweithredu prydlon pan dderbyniwyd yr adroddiad oedolyn mewn perygl a dechreuwyd ymchwiliad troseddol. Roedd modd i'r Heddlu, ynghyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, siarad ag Oedolyn V ar ei phen ei hun yn ei chartref, lle gwnaeth ddatgeliadau ynghylch niwed corfforol a gorfodaeth. Ymgymerwyd ag ymholiadau manwl gan yr Heddlu. Yn dilyn marwolaeth Oedolyn V, heb dystiolaeth feddygol, ni ellid profi esgeulustod. Gyda gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud ag Oedolyn V yn nodi bod gyda hi alluedd o ran iechyd, lles a materion ariannol, nid oedd digon o dystiolaeth i symud yr achos yn ei flaen. Cafodd y deilliant i beidio â bwrw ymlaen â'r ymchwiliad troseddol ei adolygu'n fewnol.

## Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn annog dysgu yn sgil yr achos yma, nododd yr Adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion a'i asiantaethau partner, a'r deilliannau gwella y mae'n gobeithio y byddan nhw'n eu cyflawni*:

(Beth sydd angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn gwella ymarfer a systemau yn y dyfodol i gynorthwyo ymarfer)

1. **Rheolaeth Orfodol, galluedd meddyliol a diogelu. Mae oedolion hŷn sydd ag anghenion gofal a gofal cymdeithasol yn arbennig o agored i ymddygiad gorfodol a rheolaethol fel math o gam-drin. Mae'n bwysig bod modd i ymarferwyr ei adnabod yn briodol ac ymateb iddo.**

**Cam Gweithredu:** Asiantaethau i hyrwyddo a hwyluso mynediad at wybodaeth, a lle bo'n berthnasol, cynnig hyfforddiant craidd ar gam-drin, rheolaeth orfodol, galluedd meddyliol a diogelu. I gynnwys yr hyfforddiant craidd sydd wedi'i gynnwys yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol. (VAWDASV).

2. **Dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o brosesau MARAC**

**Camau gweithredu:**

2.1 Y Bwrdd Diogelu i sicrhau bod adnoddau ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â phobl hŷn a cham-drin domestig. I gynnwys arweiniad ar ofal/llwybr atgyfeirio pobl hŷn.

2.2 Asiantaethau sy'n gweithredu o fewn rhanbarth y Bwrdd Diogelu i gefnogi staff i gael mynediad at hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar sut i gwblhau Rhestr Wirio Dangosydd Risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH).

2.3 Asiantaethau sy’n gweithredu o fewn rhanbarth y Bwrdd Diogelu i sicrhau bod gyda nhw ddigon o staff wedi’u hyfforddi i weithredu fel Hyrwyddwyr o fewn eu sefydliad i gefnogi cydweithwyr wrth weithio gydag oedolion yr effeithir arnyn nhw gan gam-drin domestig.

## 3. Gwell dealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o atwrneiaeth arhosol

**Cam Gweithredu:** Y Bwrdd Diogelu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd i'r Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol ar atwrneiaeth arhosol. I gynnwys y gwahanol fathau o atwrneiaeth, galluedd meddyliol, dewis atwrnai a sut i roi gwybod am bryder am atwrnai.

**Argymhellion Cenedlaethol**

4. **Rhannu gwybodaeth a chofnodi**

Mae'r adolygwyr yn achos Oedolyn V yn cefnogi'r argymhellion canlynol:

4.1 Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru 2023. McManus, Ball ac Almond

*'Mae'r adolygiad yma wedi amlygu natur allweddol, ond cymhleth, asiantaethau Iechyd o fewn diogelu. Er y cydnabyddir ei fod yn heriol, mae angen gwneud gwaith brys i hybu ymhellach y gwaith o hwyluso cofnod iechyd unedig*.'

4.2 Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant BDCTM 04/2021 yn ymwneud â Phlentyn T.

*‘Mae'r adolygiad yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried comisiynu adolygiad llawn o systemau cofnodi, casglu a rhannu gwybodaeth gan yr adrannau Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg a'r Heddlu. Dylid canolbwyntio'n glir ar leihau nifer y systemau gwybodaeth, symleiddio'r broses o rannu gwybodaeth a galluogi asiantaethau allweddol i gael rhagor o wybodaeth ar adegau allweddol o wneud penderfyniadau.'*

Mae modd i'r gallu i gyfnewid gwybodaeth yn electronig helpu gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd uwch a mwy diogel. Mae modd i gofnodion cywir a hygyrch helpu i nodi achos pryder yn gynnar. Er bod yr argymhellion yma'n allbynnau o adolygiadau ymarfer plant, maen nhw'r un mor berthnasol i'r adolygiad yma.

## Llyfryddiaeth

*Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2016. Gwybodaeth a Chanllawiau Ar Gam-Drin Domestig Diogelu pobl hŷn yng Nghymru.* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/

McManus, Ball and Almond. 2023. '*Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.'* Ar gael: https://bwrdddiogelu.cymru

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. 2022. '*Adolygiad Ymarfer Plant Plentyn T*'. Ar gael yn: https://.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/Cy

| Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGYDD 1** | | **ADOLYGYDD 2** ***(fel y bo'n briodol)*** | |
| **Datganiad o annibyniaeth o'r achos** *Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd* | | **Datganiad o annibyniaeth o'r achos** *Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd* | |
| Gwnaf y datganiad canlynol<br><br>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-<br><br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos<br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw<br>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rydw i wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl. | | Gwnaf y datganiad canlynol<br><br>Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:-<br><br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos<br>• Doeddwn i ddim wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw<br>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth, a'r profiad priodol gyda fi ac rydw i wedi cael yr hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a gafodd eu nodi yn y Cylch Gorchwyl. | |
| **Adolygydd 1** *(Llofnod)* | …………………. | **Adolygydd 2** *(Llofnod)* | …………………… |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | Claire Holt | **Enw** *(Llythrennau bras)* | Gail Biggs |
| **Dyddiad** | …………………. | **Dyddiad** | …………………… |

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* | ………………… |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | Lisa Curtis-Jones |
| **Dyddiad** | ………………… |

**Atodiad 1**: Cylch Gorchwyl

**Atodiad 2:** Amserlen gryno

| **Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion** |
|---|
| *I'w gynnwys yma, yn gryno:*<br>• *Y broses a gafodd ei dilyn gan y Bwrdd Diogelu Oedolion a'r gwasanaethau a gafodd eu cynrychioli ar y Panel Adolygu*<br>• *Bod sesiwn ddysgu wedi cael ei chynnal, a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*<br>• *Bod aelodau'r teulu wedi cael gwybod a bod eu sylwadau wedi'u ceisio a'u cynrychioli yn ystod y sesiwn ddysgu. Cafodd adborth ei ddarparu ar eu cyfer nhw* |
| |
| ☐ Gwrthododd y teulu gymryd rhan |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn yr wybodaeth ………………………..

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion …………………………

Dyddiad rhannu ag arolygiaethau perthnasol/Arweinwyr Polisi ........................

| **Asiantaethau** | **Ie** | **Nage** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) | ☐ | ☐ | |
| Arolygydd Heddlu ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygydd Gwasanaeth Prawf ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |

Atodiad

# Panel Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig
# Oedolyn V – BDCTM 02/2022
# Cylch Gorchwyl

## Manylion Cyfeirnod yr Achos
Oedolyn V – BDCTM 02/2022

### Amgylchiadau'n arwain at yr Adolygiad Ymarfer Oedolion
Roedd Oedolyn V yn hysbys i'r Gwasanaethau i Oedolion am nifer o flynyddoedd ac ar ôl dychwelyd adref o leoliad dros dro. Dychwelodd Oedolyn V adref gyda phecyn gofal. Roedd Oedolyn V wedi cael strôc yn flaenorol, gan arwain at anghenion ychwanegol a oedd yn cael eu diwallu gan staff gofal. Roedd gan Oedolyn V alluedd meddyliol. Pan symudodd Oedolyn V yn ôl adref o'r cartref gofal, symudodd aelod o'r teulu a oedd wedi ymddieithrio am gyfnod sylweddol o amser i mewn i dŷ Oedolyn V a dechreuodd gefnogi Oedolyn V gartref. Mae’n bryder y gallai’r aelod o’r teulu fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau Oedolyn V wrth ddychwelyd adref ac wedi hynny wedi dylanwadu ar benderfyniad Oedolyn V i newid yr ewyllys i fod yn enw’r aelod sydd ag atwrneiaeth arhosol, gan ddileu aelodau eraill o’r teulu, er gwaethaf eu cysylltiad sylweddol cyson ag Oedolyn V. Roedd pryderon bod Oedolyn V yn cael ei rheoli gan yr aelod o'r teulu. Codwyd nifer o bryderon gan asiantaeth gofal mewn perthynas â'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan yr aelod o'r teulu a arweiniodd wedyn at chwalu'r pecyn gofal.

Aeth gofalwr blaenorol ar gyfer Oedolyn V i’r cyfeiriad cartref a datgelodd Oedolyn V fod “yr aelod o’r teulu yn ofnadwy tuag at Oedolyn V, a bod yr aelod o’r teulu a’u partner yn taro ac yn gwthio Oedolyn V”. Dywedwyd hefyd bod y tŷ yn oer a bod yr aelod o'r teulu'n gwrthod rhoi'r gwres ymlaen”. Roedd cleisiau hefyd ar gorff Oedolyn V. Cafwyd trafodaeth strategaeth frys a chadarnhaodd Oedolyn V fod yr aelod o'r teulu wedi ei brifo.

Dechreuodd Oedolyn V ddirywio a chafodd ei derbyn i'r ysbyty yn fuan wedi hynny. Roedd gan Oedolyn V anafiadau pan gafodd hi ei derbyn i'r ysbyty ac roedd hi'n ymddangos i fod yn dioddef o ddiffyg maeth. Pan dderbyniwyd Oedolyn V yn yr ysbyty, roedd hi'n ymddangos yn ofnus. Yn anffodus, bu farw Oedolyn V ychydig o ddiwrnodau yn ddiweddarach. Dywedodd aelodau o staff fod Oedolyn V yn ymddangos yn ofnus ac wedi'i dychryn. Cynhaliwyd post mortem, ond mae'r adroddiadau'n nodi mai niwmonia, eiddilwch, maethiad gwael, clefyd y galon a diabetes oedd achos y farwolaeth. Dywed meddyg ei bod yn anodd dweud sut achoswyd y cleisio na phryd y digwyddodd, ac awgrymodd y gallai codwm fod yn esboniad tebygol. Dywed meddyg nad oedd marciau i ddangos y bu unrhyw gam-drin corfforol ers tro. Nid oedd gan y gweithiwr cymdeithasol ac asiantaeth gofal unrhyw wybodaeth i awgrymu bod Oedolyn V wedi cwympo.

Mae gan yr achos yma sawl elfen wahanol iddo:

- Cam-drin oedolion hŷn

- Gorfodaeth a rheolaeth. Lefel uchel o gamdriniaeth gan y rhoddwr gofal honedig

- Oedolyn y tybiwyd bod gyda nhw alluedd meddyliol ac na ddatgelodd unrhyw gamdriniaeth yn flaenorol

- Y sawl sy’n cyflawni’r drosedd yn heriol ac yn ddadleuol â phob gweithiwr proffesiynol yn ystod eu hymwneud â'r person (anghydweithredol)

- Ymchwiliad gan yr Heddlu a arweiniodd at ddim euogfarn o ystyried datgeliad cychwynnol

- Materion sifil sy'n ymwneud ag ewyllys unigolyn ac sy'n cael ei newid dan orfodaeth bosibl

- Oedi yn yr achos yma rhag cael ei gyflwyno'n ffurfiol yn sgil pandemig COVID-19

## Asiantaethau yn ymwneud â'r achos

Roedd yr asiantaethau canlynol yn ymwneud ag Oedolyn V, a bydd y rhain yn cwblhau llinell amser a dadansoddiad o'u hymwneud â hi:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau i Oedolion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Serenity Support Services
- Cera Care
- Age Connect Cymru
- Cartref Gofal Oakwood

## Tasgau craidd

Tasgau Craidd y Panel Adolygu Ymarfer Oedolion yma yw:

- Darganfod a oedd penderfyniadau a gweithrediadau'r achos yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r gwasanaethau sydd wedi'u henwi, a'r Bwrdd
- Archwilio sut mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd a sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r unigolyn ac i'r teulu
- Darganfod i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Galw am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol y teulu a rhoi gwybod iddyn nhw am agweddau allweddol yn y datblygiadau
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau tebyg neu drafodion yn ymwneud â'r achos
- Cynnal achlysur dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau sydd eu hangen
- I ba raddau y dylanwadodd pandemig COVID-19 ar benderfyniadau, gweithredoedd a deilliannau?

Tasgau penodol y Panel Adolygu:

- Pennu a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Cytuno ar amserlen
- Pennu asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes wedi eu cymryd
- Llunio llinell amser gyfunedig, dadansoddiad a damcaniaethau cychwynnol
- Trefnu achlysur dysgu i ymarferwyr gyda'r adolygwr/adolygwyr, a fydd yn cynnwys pennu ymarferwyr i fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl yr achlysur, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/adolygwyr drefniadau i gysylltu ag aelodau'r teulu cyn yr achlysur
- Derbyn adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant/oedolion, a'i ystyried i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod y rhagdybiaethau gwreiddiol wedi cael sylw priodol, a bod unrhyw beth sydd wedi'i ddysgu o'r broses wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac amlinelliad o'r cynllun gweithredu, a gwneud trefniadau ar gyfer ei gyflwyno i Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i gael ei ystyried a'i gytuno
- Trefnu adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl ei orffen, a chyn ei gyhoeddi.

## Aelodau'r panel

| ENW | TEITL | SEFYDLIAD |
|---|---|---|
| Lisa Curtis Jones | Cadeirydd Annibynnol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Gail Biggs | Adolygydd Annibynnol | Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Claire Holt | Adolygydd Annibynnol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Jackie Neale | Rheolwr y Gwasanaethau Diogelu Oedolion | Gofal Cymdeithasol i Oedolion RhCT |
| Beth Aynsley | Rheolwr Pobl sy'n Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Janine Curtis | Nyrs Diogelu'r Cyhoedd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |

| | | |
|---|---|---|
| Gwenan Jones-Parry | Parafeddyg Diogelu Arbenigol | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Helen Davies | | Age Connect Morgannwg |
| Paul Davies | | Cera Care |
| Barbara Jones/ Yvonne Powell | | Contract a Chomisiynu (Cynrychiolydd Cartref Gofal Oakwood) |

**Meysydd Canolbwynt Ychwanegol**
Dim wedi'i nodi

**Unrhyw adolygiadau cyfochrog neu waith arall o'r fath i gael eu nodi**
Ystyried y gŵyn a godwyd gan aelod o'r teulu.

**Amserlen ar gyfer yr Adolygiad**

Cytunwyd y byddai'r panel yn edrych ar amserlen rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Gorffennaf 2020.
Byddai hyn yn cynnwys amser yn yr ysbyty a'r cyswllt ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym mis Awst 2019.

**Sesiwn ddysgu**

Bydd y sesiwn ddysgu yn sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr adolygiad a bod modd i ymarferwyr glywed safbwyntiau'r teulu. Mae disgwyl i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol os ydyn nhw'n cael gwahoddiad. Bydd pob ymarferydd yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd ac yn nodi'r hyn sydd wedi'i ddysgu er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol.

Mae'r Panel Adolygu yn gyfrifol am gynorthwyo'r adolygwyr i gynnal sesiwn ddysgu effeithiol.

Mae disgwyl y bydd y sesiwn ddysgu yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2023.

**Dyddiad Cwblhau**

Y dyddiad cwblhau sydd wedi'i bennu ar gyfer yr Adolygiad yw mis Mawrth 2024.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu
- Anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygiadau, gan gynnwys y modd y bydd gwelliannau'r gwasanaeth a ragwelir yn cael eu pennu, eu monitro a'u hadolygu

- Trefnu i'w gyhoeddi ar wefan y Bwrdd
- Cytuno pryd a sut i rannu'r adroddiad ag asiantaethau a gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac am ymateb i sylw gan y cyfryngau ynghylch yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau

Atodiad

**Llinell Amser Cryno Oedolyn V**

| **Dyddiad** | **Digwyddiad Arwyddocaol** |
|---|---|
| Awst 2019 | Aelod o'r teulu'n cysylltu â'r Awdurdod Lleol yn pryderu nad yw Oedolyn V yn ymdopi gartref. Mae Oedolyn V yn cael anawsterau iechyd a chyfathrebu yn dilyn damweiniau serebo-fasgwlaidd hanesyddol. Asesiad Gofal a Chymorth wedi'i gynnal, deilliant hyn oedd y rhoddwyd pecyn gofal ar waith. |
| Medi 2019 | Mae Oedolyn V yn cwympo ac yn cael ei derbyn i'r ysbyty. Tra'i bod yn yr ysbyty, mae'n cytuno i wneud atwrneiaeth arhosol, gan benodi perthynas. Gwneir adroddiad diogelu gan fod pryderon y gallai hyn fod wedi'i wneud dan orfodaeth. |
| Hydref 2019 | Mae Oedolyn V yn poeni am ddychwelyd adref ac yn mynegi dymuniad i symud i ofal preswyl. Caiff lle mewn cartref gofal preswyl ei sicrhau, ac mae Oedolyn V yn symud o'r ysbyty i'r cartref gofal. |
| Tachwedd 2019 | Mae perthynas y tybir ei fod wedi ymddieithrio yn ailsefydlu cyswllt ag Oedolyn V. |
| Rhagfyr 2019 | Mae Oedolyn V yn mynegi ei bod yn dymuno dychwelyd adref ac i'r perthynas ofalu amdani. Caiff asesiadau iechyd, therapi galwedigaethol a gofal cymdeithasol eu cynnal. Caiff asesiad galluedd meddyliol ffurfiol ei gynnal – mae Oedolyn V yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun. |
| Ionawr 2020 | Cafodd meddyg teulu ei alw gan y cartref gofal preswyl oherwydd bod gyda nhw bryderon am iechyd Oedolyn V. Doedd hi ddim yn bwyta nac yn yfed, roedd gyda hi haint ar y frest ac roedd yn gwrthod cymryd meddyginiaeth. Ar yr adeg yma, barnwyd nad oedd gan Oedolyn V y gallu i benderfynu ar driniaeth. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty gyda chynllun i ddychwelyd i'r cartref gofal pan fyddai'n ddigon da i wneud hynny. |
| Ionawr 2020 | Mae'r cartref gofal yn rhoi rhybudd i derfynu'r lleoliad oherwydd ymddygiad heriol gan berthnasau Oedolyn V. Asesiad galluedd meddyliol wedi'i gynnal, roedd gyda hi alluedd i wneud y penderfyniad i ddychwelyd adref. |
| Chwefror 2020 | Oedolyn V yn dychwelyd adref gyda phecyn gofal. |

| | |
|---|---|
| Mawrth 2020 | Cyfyngiadau symud a mesurau COVID-19 yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r pecyn gofal yn parhau. |
| Ebrill 2020 | Galw'r Heddlu i ddod i gartref Oedolyn V oherwydd adroddiadau o aflonyddwch. Pryderon y gallai fod rheolaeth orfodol o fewn perthnasoedd teuluol Oedolyn V. |
| Mai 2020 | Mynegwyd pryderon gan asiantaeth gofal cartref ynghylch mynediad at eiddo a phroblemau gyda'r cynhaliwr. |
| Mai – Mehefin 2023 | Problemau parhaus gyda darparu'r pecyn gofal. Oedolyn V yn gwrthod gofal weithiau ac yn gwrthod cymryd ei meddyginiaeth. Newid yn y darparwr gofal cartref. |
| Mehefin 2020 | Oedolyn V yn datgelu i eiriolwr annibynnol ei bod wedi cael ei cham-drin gan aelod o'r teulu. Cyflwynwyd adroddiad diogelu oedolion mewn perygl, cynhaliwyd ymchwiliad diogelu, cafodd camau eu cymryd i ddiogelu Oedolyn V. Cychwynnwyd ymchwiliad troseddol. |
| Gorffennaf 2020 | Mae iechyd Oedolyn V yn dirywio, ac mae hi’n cael ei derbyn i'r ysbyty. |
| Gorffennaf 2020 | Marwolaeth Oedolyn V. |